# Arbedwyr ynni

| | |
|---|---|
| **Amser ar gyfer y gweithgaredd** | **15 munud +** |
| **Lleoliad** | **Awyr agored neu dan do** |

## Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn yn annog dysgwyr i ystyried a thrafod y ffyrdd y mae angen i ni gyd weithredu fel dinasyddion cyfrifol i arbed ynni i helpu i liniaru newid hinsawdd.

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei holl waith yw anelu at reolaeth gynaliadwy adnoddau naturiol. Mae hyn yn golygu gofalu am aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Y Dyniaethau | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Iechyd a Lles |
|---|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.<br>• **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. |

## Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- defnyddio sgiliau cyfathrebu ac iaith berswadiol effeithiol i rannu syniadau a barn ar y ffordd/ffyrdd mwyaf effeithlon o arbed ynni.
- datblygu eu gwybodaeth am ddulliau arbed ynni yn eu bywydau nhw a'u teuluoedd o ddydd i ddydd.
- archwilio ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar sut yr ydym yn defnyddio ynni ac ystyried y rhwystrau i leihau ein hanghenion ynni.

## Adnoddau ac offer

- Cardiau adnoddau – Arbedwyr ynni

## Beth i'w wneud

Mae'r cardiau trafod yn disgrifio gwahanol ffyrdd y gallwn arbed ynni. Nid yw'n angenrheidiol i ddefnyddio pob cerdyn. Gellir dewis rhai neu gadw rhai ar gyfer y tro nesaf.

1. Cyflwynwch y gweithgaredd trwy ofyn i'ch dysgwyr awgrymu pam bod arbed ynni yn bwysig a thrafodwch eu syniadau.
2. Gofynnwch iddyn nhw ddarllen trwy'r wybodaeth ar y cardiau a thrafod eu cynnwys.
3. Eglurwch nad oes unrhyw atebion cywir neu anghywir a bod pob barn yn ddilys.

Gall y gweithgaredd hwn gael ei addasu a'i wneud mewn amrywiaeth o ffyrdd.

a. Yn annibynnol, mewn parau neu mewn grwpiau bach, dylai dysgwyr benderfynu pa gerdyn, yn eu barn nhw, sy'n dangos y dull pwysicaf o arbed ynni a pha gerdyn yw'r lleiaf pwysig. Gofynnwch iddyn nhw egluro'r rhesymu dros eu dewis.

b. Gan weithio mewn parau neu grwpiau bach, rhowch 9 cerdyn i bob grŵp a gofynnwch iddyn nhw i'w didoli gan ddefnyddio dull rancio diemwnt. Dylai eich dysgwyr drefnu'r cardiau ar ffurf diemwnt, gyda'r cerdyn pwysicaf ar y pen, dau gerdyn yn yr 2il res, tri cherdyn yn y 3edd res (pwysigrwydd canolig), dau gerdyn yn y 4edd res, a'u cerdyn lleiaf pwysig ar y gwaelod. Fel grŵp, dylen nhw weithio i gyrraedd cytundeb a gallan nhw symud y cardiau o gwmpas nes cyrraedd trefn maen nhw i gyd yn cytuno arni.

c. Mewn grwpiau, rhowch un cerdyn yn unig i bob grŵp. Gall pob grŵp egluro eu cerdyn a gwneud achos am ble y dylen nhw fod yn nhrefn pwysigrwydd. Gofynnwch i'r grwpiau weithio gyda'i gilydd i drefnu eu hunain a sefyll yn nhrefn pwysigrwydd o'r pwysicaf i'r lleiaf pwysig. Wedyn gellir cymharu'r gwahanol linellau o grwpiau, a thrafod yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol yn eu barn nhw.

d. Crëwch siart/graff bar dynol i ddangos sut mae eich dysgwyr wedi didoli pwysigrwydd y cardiau. Gosodwch y cardiau ar y llawr a gofynnwch i'ch dysgwyr sefyll o flaen y cerdyn o'u dewis mewn llinellau syth i wneud y 'bariau'. Gan ddibynnu ar y canlyniad, trafodwch unrhyw ffactorau chwaraeodd ran yn newisiadau eich dysgwyr. Er enghraifft, a wnaeth dysgwyr cefn gwlad wneud dewisiadau gwahanol i ddysgwyr canol dinas?

e. Didolwch y cardiau i'r ffyrdd y mae eich dysgwyr yn arbed ynni eu hunain a'r hyn nad ydyn nhw'n gallu ei wneud. Gellir ystyried hyn yng nghyd-destun y cartref neu'r ysgol. Trafodwch yr hyn sy'n rhwystro gweithredu pellach.

f. Gofynnwch i bob dysgwr ddewis un o'r cardiau sy'n bwysig iddyn nhw ac egluro pam. Beth allan nhw ei wneud yn unigol i arbed ynni? Gofynnwch i bob dysgwr ddewis un neu fwy o gardiau sy'n dangos ffyrdd y byddan nhw'n ceisio arbed ynni yn y dyfodol. Gall eich dysgwyr gyfrifo'u hôl troed ynni eu hunain o'n **Cynllun gweithgaredd - Ôl troed carbon**, i'w helpu i gyfrifo faint o weithredu gwrthbwyso y dylen nhw ei ystyried.

## Cwestiynau allweddol a awgrymir

- Pam yr ydym ni angen ynni?
- Sut gallwn ni arbed ynni?
- Pam mae'n bwysig arbed ynni?
- Beth allwch chi ei wneud i arbed ynni?
- Beth sy'n eich rhwystro rhag arbed mwy o ynni?

## Addasu ar gyfer gwahanol anghenion neu alluoedd

### Mwy o gymorth

- Dewis y dull mwyaf priodol o gyflwyno, o a i f, ar gyfer eich grŵp.
- Tynnu rhai o'r cardiau o'r set.

### Mwy o sialens

- Meddwl am ffyrdd eraill y gallwn arbed ynni a'u hysgrifennu ar gardiau gwag er mwyn i grwpiau eraill eu didoli.

## Gweithgaredd atodol/estyniad

Rhowch gynnig ar ein:

- Cynllun gweithgaredd – Pam mae ynni'n bwysig
- Cynllun gweithgaredd – 'ABC' newid hinsawdd
- Cynllun gweithgaredd – Cyfrifiannell garbon coed neu gorsydd
- Defnyddio celf naturiol i ddarlunio ffordd o arbed ynni
- Creu cynllun gweithredu neu ddylunio poster i annog pobl eraill i arbed ynni

## Gwybodaeth ychwanegol

Darganfyddwch fwy am waith Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â newid hinsawdd ar **www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**Cyfoeth Naturiol Cymru/Newid hinsawdd**

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk  0300 065 3000**



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government